Lee Waters AC/AM
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-793
Ein cyf/Our ref LW/05205/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd - Pwyllgor deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Government.Committee.Business@gov.wales

20 Mawrth 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-793 ac argaeledd band eang cyflym iawn ym mhentref Llangenni.

Mae'n ddrwg gen i glywed bod trigolion Llangenni heb fynediad i gyswllt band eang cyflym a dibynadwy o hyd.

Er ei bod yn anodd rhoi diweddariad manwl gywir ar gysylltedd heb gyfeiriad post penodol, mae fy swyddogion i wedi gwirio'r codau post canlynol gyda BT (rhowch wybod i mi a oes unrhyw ardaloedd cod post eraill i'w hystyried):

NP8 1EY
NP8 1HE
NP8 1TB
NP8 1HF
NP8 1HD
NP8 1EU
NP8 1HA
NP8 1HB
NP8 1TD

Mae BT wedi cadarnhau na fydd yr ardaloedd codau post uchod yn cael eu cysylltu o dan y rhaglen olyniaeth. Mae Openreach wedi penderfynu pa eiddo sy'n dod o dan y prosiect hwn yn seiliedig ar sawl ffactor, gan gynnwys gwerth am arian cyhoeddus, y cyflymder band eang y gellir ei gyflawni ac amserlenni cyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Nid ffeibr yw'r unig ateb i gyflymder band eang cyflymach. Er mwyn cyrraedd yr eiddo nad ydynt yn gallu cael band eang cyflym ar hyn o bryd, mae angen ymyriadau amrywiol. Mae'r ymyriadau hyn yn seiliedig ar greu newid mawr mewn cyflymder yn hytrach na chanolbwyntio ar dechnolegau penodol.

Rydym yn parhau i gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad parhaus mewn seilwaith digidol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys annog gweithredwyr y sector preifat i ehangu eu rhwydweithiau eu hunain yn ychwanegol at ymyriadau'r sector cyhoeddus. Os na allwn ddarparu ffeibr drwy ehangu ar raddfa fawr a gyllidir yn gyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth i unigolion, busnesau a chymunedau i'w helpu i gael mynediad i gyflymder band eang y mae arnynt ei angen drwy ddulliau eraill.

Mae sawl ffordd i drigolion Llangenni gael band eang cyflymach i'w heiddo. I gael band eang cyflymach nawr, dyma'r opsiynau:

- Ein cynllun Allwedd Band Eang Cymru sy'n darparu grantiau i gyllido (neu rannol gyllido) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru (nid yw'n cynnwys costau rhentu misol). Rhaid i gyswllt newydd drwy gyfrwng y cynllun hwn greu newid mawr mewn cyflymder - gydag o leiaf ddwbl y cyflymder lawrlwytho presennol. Mae swm y cyllid a dderbynnir yn dibynnu ar gyflymder y cyswllt newydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â 0300 025 8887 neu broadband@gov.wales

- Os oes gennych chi fusnes, mae cefnogaeth ar gael i'ch cysylltu chi â gwasanaeth gwibgyswllt. Hefyd mae'r Cynllun UCV â'i ffocws ar fusnes ar gael i fusnesau sy'n dymuno uwchraddio cyswllt presennol i wasanaeth gwibgyswllt (100+Mbps am i lawr, 30+Mbps am i fyny). Mae'r cynllun yn darparu hyd at £10,000 i gyllido (neu rannol gyllido) costau gosod cysylltiadau gwibgyswllt newydd ond nid yw'n cynnwys costau rhentu misol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â 0300 025 8887 neu broadband@gov.wales

- Hefyd mae cefnogaeth ar gael gan Gynllun Talebau Band Eang Gigabid Llywodraeth y DU. Gall busnesau bach a'r cymunedau o'u cwmpas ddefnyddio'r talebau gigabid i gyfrannu tuag at gost gosod cysylltiad band eang sy'n gallu delio â gigabid. Gall busnesau hawlio hyd at £2,500 yn erbyn cost y cysylltiad naill ai'n unigol neu fel rhan o brosiect grŵp. Gall trigolion elwa o'r cynllun gyda thaleb gwerth £500 fel rhan o brosiect grŵp. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/

- Partneriaethau Ffeibr Cymunedol - Dyma bartneriaeth lle mae Openreach yn gweithio gyda grŵp lleol sy'n cynrychioli dau eiddo neu fwy i sicrhau band eang cyflym iawn neu wibgyswllt yn yr ardal. Os yw'n bosib, maent yn dod â chyllid o awdurdodau lleol, cynlluniau talebau'r Llywodraeth a grantiau eraill i helpu i wneud pethau'n fforddiadwy. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://communityfibre.openreach.co.uk/

- Hefyd gall y trigolion wirio'r gwasanaethau eraill sydd ar gael; efallai y byddant yn gallu cael band eang safonol, band eang cebl neu fand eang di-wifr. Dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth.

https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/advice/ofcom-checker

Os bydd y trigolion yn cael unrhyw anhawster gyda chael cyngor gan y tîm grantiau neu os hoffent gael rhagor o gyngor ar weithio gyda'u cymdogion i ddefnyddio'r gronfa Partneriaethau Ffeibr Cymunedol, cofiwch roi gwybod i mi a bydd fy swyddogion yn fwy na pharod i geisio helpu.

Yn gywir,

Lee Waters AC/AM
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport